# Gweithdrefn ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau ac Achosion o Afiechyd Galwedigaethol

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo** | *Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd* |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | *I'w gadarnhau* |
| **Perchennog y Polisi / Canllaw** | *Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd* |
| **Cyswllt y Polisi / Canllaw** | *Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd*<br>*hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)* |
| **Statws y Polisi / Canllaw** | *Diwygiwyd* |
| **Cyfeirnod** | *P001* |
| **Fersiwn** | *V2.0* |
| **Dyddiad adolygu** | *Bob 2 flynedd fel arfer* |
| **Dyddiad Asesiad Effaith** | *I'w gadarnhau* |

**1.0 DIBEN**

1.1 Darparu arweiniad ar hysbysu ac ymchwilio i ddigwyddiadau ac achosion o afiechyd galwedigaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth (PA).

**2.0 DIFFINIADAU**

2.1 Digwyddiad - unrhyw ddigwyddiad dieisiau neu heb ei gynllunio sydd wedi achosi neu a allai fod wedi achosi marwolaeth, anaf, afiechyd neu ddifrod i asedau (colled), yr amgylchedd neu drydydd partïon.

2.2 Damwain - unrhyw ddigwyddiad heb ei gynllunio sy'n arwain at anaf neu afiechyd i bobl, neu ddifrod neu golled i eiddo, offer, deunyddiau neu'r amgylchedd.

2.3 digwyddiad prin osgoi – unrhyw ddigwyddiad a allai, mewn amgylchiadau ychydig yn wahanol, fod wedi arwain at anaf neu afiechyd i bobl, neu ddifrod neu golled i eiddo, offer, deunyddiau neu'r amgylchedd.

2.4 Digwyddiad peryglus - unrhyw ddigwyddiad sydd â photensial uchel i achosi marwolaeth neu anaf difrifol ac a bennir yn Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013, gan gynnwys methiannau'n gysylltiedig â pheiriannau codi a systemau pwysedd, cwymp sgaffaldiau a ffrwydrad neu dân.

2.5 RIDDOR - Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013

**3.0 CWMPAS**

3.1 Mae'n cynnwys pob achlysur (digwyddiadau, damweiniau, digwyddiadau peryglus neu brin osgoi) sydd wedi achosi (neu sydd â'r potensial i achosi) niwed i bobl, anifeiliaid, cyfleusterau neu'r amgylchedd sy'n codi ar eiddo PA a/neu o ganlyniad i weithgareddau PA.

3.2 Mae enghreifftiau'n cynnwys achlysuron sy'n cynnwys neu sydd â'r potensial i gynnwys: anafiadau damweiniol; tân; trydan; nwy; digwyddiadau peryglus (fel ffrwydriad, cwymp adeiladau neu sgaffaldiau ac ati), digwyddiadau amgylcheddol (fel llygru cyrsiau dŵr) neu drais.

3.3 Mae Afiechyd Galwedigaethol yn cynnwys unrhyw achos o afiechyd i staff a myfyrwyr sy'n gysylltiedig â gwaith, ac afiechyd i bobl eraill os caiff ei achosi gan weithgareddau PA.

3.4 Dylid adrodd am achosion o afiechyd nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau PA (e.e. cyflyrau meddygol aciwt neu anafiadau a achoswyd gan yr unigolyn iddo'i hun) drwy'r weithdrefn hon os caiff cymorth cyntaf ei weinyddu gan staff neu fyfyrwyr PA, neu os oes gan y digwyddiad y potensial i achosi niwed i eraill.

3.5 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl Athrofeydd [1]ac Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol, staff, myfyrwyr, contractwyr, ymwelwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

3.6 Mae digwyddiadau sy'n codi o weithgareddau Undeb y Myfyrwyr ei hun yn ddarostyngedig i weithdrefnau adrodd lleol. Caiff canlyniadau'r rhain eu trafod gyda'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd naill ai yn ystod cyfarfodydd rheolaidd Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd Undeb y Myfyrwyr neu pan fydd angen brys yn codi.

**4.0 CYFRIFOLDEB**

4.1 Cyfarwyddwyr Athrofeydd a Phenaethiaid Adran Gwasanaethau Proffesiynol - Sicrhau bod y weithdrefn hon yn cael ei rhoi ar waith yn llawn. Gall Cyfarwyddwr yr Athrofa / Pennaeth y

---

[1] Translator's note – the document refers to Institutes throughout rather than Faculties. I have also used Institutes so as to be consistent with the original document.

Gwasanaeth Proffesiynol benodi Cydlynydd Iechyd a Diogelwch i gynorthwyo gyda'r ddyletswydd hon, yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Aberystwyth.

4.2 Yr holl aelodau o staff a myfyrwyr – Adrodd yn brydlon am bob digwyddiad neu achos o afiechyd galwedigaethol drwy gwblhau Rhan A o'r Ffurflen Cofnodi Digwyddiad.

4.3 Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch – Ymchwilio i amgylchiadau digwyddiadau, adrodd i'r rheolwyr lleol am unrhyw wendid yn y systemau rheoli cyfredol a nodwyd a allai fod wedi cyfrannu at y digwyddiad, a sicrhau bod rheolwyr llinell perthnasol yn ymwybodol o'r digwyddiad os yw eu staff neu fyfyrwyr penodol yn rhan ohono.

4.4 Rheolwyr a Goruchwylwyr – Ymateb i ganfyddiadau ymchwiliadau i ddigwyddiadau, deall unrhyw resymau sylfaenol am y digwyddiad a chymryd camau priodol i'w atal rhag digwydd eto. Bod yn gyfrifol am y broses gofnodi leol fel bo'n briodol (os nad yw'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch ar gael).

4.5 Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yr Athrofa / Adran Gwasanaeth Proffesiynol – Monitro ac adolygu digwyddiadau sy'n digwydd o ganlyniad i weithgareddau neu gyfleusterau Athrofaol / Adrannol. Adrodd am y canfyddiadau i Gyfarwyddwr yr Athrofa / Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol ac i Bwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd PA (yr olaf drwy'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

4.6 Y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd - Cael adroddiadau ar ddigwyddiadau (a hysbysiadau am afiechyd cyflogeion a briodolir i weithgareddau gwaith) a gwneud ymchwiliadau pellach os ystyrir hynny'n angenrheidiol; llunio a dadansoddi cofnodion o ddigwyddiadau ar ran PA er mwyn nodi tueddiadau a chynghori ar fesurau adferol i'w blaenoriaethu; pennu a oes modd adrodd am ddigwyddiad dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR) a chymryd camau priodol; cynnal cofnod canolog o ddigwyddiadau.

4.7 Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd PA – Cael adroddiadau rheolaidd ar dueddiadau digwyddiadau ac awgrymu camau gweithredu ategol lle bo angen.

## 5.0 YMARFER

5.1 Pan geir digwyddiad, y flaenoriaeth yw unrhyw ymateb brys uniongyrchol. Fodd bynnag, dylid cofnodi a logio gwybodaeth allweddol yn ymwneud â'r digwyddiad cyn gynted â phosibl. Gall yr unigolyn/unigolion dan sylw wneud hyn, neu gydweithwyr os yw'r unigolyn/unigolion yn methu â gwneud.

Dylai partïon a/neu dystion i ddigwyddiad wneud nodyn cychwynnol o'r manylion sylfaenol fel dyddiad, amser, enw a manylion cyswllt yr unigolyn/unigolion dan sylw, atgofion cychwynnol am y digwyddiad ac ati. Dylid atodi unrhyw ddogfennau ychwanegol (fel ffotograffau, negeseuon ebost a datganiadau ysgrifenedig) a allai helpu gyda'r broses ymchwilio, neu eu cynnwys gyda'r ffurflen Cofnodi Digwyddiad. Yn yr un modd, dylid diogelu a storio unrhyw dystiolaeth berthnasol, fel peiriannau sydd wedi torri.

Mae Ffurflen Cofnodi Digwyddiad Prifysgol Aberystwyth i'w gweld yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/incident-reporting/.

Yr unigolyn sy'n adrodd (fel arfer mewn cydweithrediad â'r rheolwr llinell) ddylai gwblhau Rhan A. Dylid cwblhau'r adran hon cyn gynted â phosibl yn dilyn y digwyddiad (heb beryglu unrhyw ymateb brys uniongyrchol).

Dylid hysbysu Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch yn brydlon am unrhyw ddigwyddiadau a digwyddiadau prin osgoi er mwyn cychwyn a chynnal ymchwiliad i'r digwyddiad. Y Cydlynydd

Iechyd a Diogelwch lleol sy'n cwblhau Rhan B y ffurflen, gan gofnodi prif ganfyddiadau'r ymchwiliadau mewnol a gynhelir neu a gydlynir gan y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch lleol, a dylid ei chwblhau ar gyfer pob digwyddiad. Os nad yw'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch ar gael yna dylai rheolwr perthnasol gymryd cyfrifoldeb am y broses hon. Dylid cynnal ymchwiliad i bob digwyddiad o fewn tri diwrnod gwaith i'r digwyddiad neu'r achlysur (neu cyn gynted â phosibl wedi hynny).

Dylai'r rheolwr llinell neu'r goruchwyliwr perthnasol, a ddylai fod yn ymwybodol o'r digwyddiad eisoes, gysylltu â'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch, gan nodi a rhoi unrhyw newidiadau rheoli angenrheidiol ar waith er mwyn atal y peth rhag digwydd eto.

Os bydd y digwyddiad ar dir PA (ar wahân i'r ardaloedd chwaraeon) i ffwrdd oddi wrth adeiladau, neu mewn mannau cymunedol mewn adeiladau aml-ddefnyddwyr, byddai staff Gwasanaethau'r Campws fel arfer yn gyfrifol am gwblhau'r ffurflen gofnodi. Fodd bynnag nid yw hyn yn wir bob tro a gall unrhyw unigolyn priodol gwblhau'r ffurflen: bydd y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn sicrhau'n ddiweddarach bod y rheolwr perthnasol yn yr Adran Ystadau yn cael ei hysbysu fel bo angen (os yw'r achos sylfaenol yn dod dan gwmpas yr Adran honno).

5.2 Os bernir bod y digwyddiad (neu'r digwyddiad prin osgoi) yn ddifrifol (gweler adran 7.1) rhaid hysbysu'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd cyn gynted â phosibl.

Rhaid adrodd am absenoldeb o'r gwaith am fwy na saith diwrnod yn olynol (gan gynnwys penwythnosau os nad yw'r unigolyn yn ffit i weithio) a achosir gan ddamwain **neu** salwch yn gysylltiedig â'r gwaith cyn gynted â phosibl, ac yn ddelfrydol o fewn dau ddiwrnod gwaith o ddechrau'r absenoldeb.

Nid oes angen adrodd am fân ddigwyddiadau, unwaith eto mae hwn yn benderfyniad sy'n galw am elfen o farn oddrychol mewn rhai achosion. Er enghraifft ni fyddai 'toriad papur' ar fys fel arfer yn teilyngu adroddiad, ond byddai toriad o gyllell fodelu; ni fyddai llosgi tost, ond byddai tân mewn padell goginio lle byddai angen blanced dân i'w diffodd.

5.3 Dylid adrodd am unrhyw ddigwyddiad sy'n cynnwys tân (a ddiffinnir fel ffynhonnell o wres sydd yn gorfod cael ei ddiffodd gyda chyfarpar ymladd tân neu ymyrraeth y Frigâd Dân) ar unwaith, neu ar ddechrau'r diwrnod gwaith nesaf, i'r Tim Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (hasstaff@aber.ac.uk neu estyniad 2073) a thrwy gwblhau ffurflen Cofnodi Digwyddiad pan fydd yr holl wybodaeth wedi dod i law.

5.4 O ystyried amrywiaeth eang a nifer fawr y digwyddiadau (nad yw pob un yn berthnasol i Iechyd a Diogelwch) a gofnodir ym mhreswylfeydd myfyrwyr PA, ceir rhagor o wybodaeth am gofnodi digwyddiadau yn adran 7.2.

5.5 Dylid mynd â chopi o'r ffurflen Cofnodi Digwyddiad wedi'i chwblhau i'w storio fel cofnod yr Athrofa / Adran (ar ôl tynnu sylw'r rheolwr neu oruchwyliwr priodol ati). Dylid anfon y ffurflen wreiddiol at y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, a fydd yn ymchwilio fel yr ystyrir yn briodol, ac yn anfon copïau o adroddiadau ar ddigwyddiadau difrifol i Swyddog Yswiriant PA ac eraill sydd ag angen dilys am fynediad. Dylai Athrofeydd / Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol gadw cofnod o bawb sy'n derbyn copïau ychwanegol o adroddiadau digwyddiadau unigol; yn yr un modd bydd y Tim Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn cadw'r cyfryw gofnodion o gopïau a wneir i eraill. Dylid hysbysu Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd PA am yr holl adroddiadau RIDDOR.

Ceir Datganiad Prosesu Data'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau yn adran 7.3.

**Noder:** Os caiff unigolyn ei enwi yn yr adroddiad (y person a anafir yn nodweddiadol) mae gan yr unigolyn hawl i gopi o'r adroddiad cyflawn ar gais i'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

5.6 Mae cofnodion sy'n ymwneud â phobl yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Diogelu Data (1998) ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data pellach (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol) a ddaw i rym yn 2018, ac felly cyfyngir mynediad i'r swyddogaethau hynny sy'n gyfrifol am sicrhau iechyd, diogelwch a lles personau yn y gwaith yn erbyn risg i iechyd neu ddiogelwch sy'n deillio neu sy'n gysylltiedig â gweithredoedd personau yn y gwaith.

Dylid storio cofnodion o'r fath am dair blynedd ar ôl i'r person beidio â bod yn aelod o PA; neu 40 mlynedd os yw'r adroddiad yn ymwneud ag afiechyd galwedigaethol neu amlygiad perthnasol i ddeunyddiau peryglus gyda goblygiadau iechyd tymor hir (fel asbestos); neu dair blynedd ar ôl y digwyddiad os nad oedd y person yn aelod o PA; yn dilyn hynny dylid dinistrio'r cofnodion papur fel gwastraff cyfrinachol.

Gellir cadw cofnodion electronig, ac eithrio manylion personol, am gyfnod amhenodol at ddibenion cadw ystadegau.

## 6.0 CYFEIRNODAU


Ffurflen Cofnodi Digwyddiad Prifysgol Aberystwyth (https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/procedurespracticesforms/S002F_cy.pdf)

Deddf Diogelu Data 1998 (Y Llyfrfa, Llundain) (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents)

Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR) (http://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm)

## 7.0 ATODIADAU

### 7.1 Arweiniad ar 'ddifrifoldeb' digwyddiad neu gyflwr iechyd sydd angen adrodd amdano ar unwaith.

Bydd angen defnyddio doethineb wrth farnu beth sy'n ddigwyddiad **difrifol**. Os oes amheuaeth ceisiwch gyngor gan y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

Byddai'r canlynol yn eu plith:

- ffrwydradau;
- tân sylweddol;
- gwrthdrawiad cerbyd difrifol;
- gollyngiad neu ddihangfa cemegau gwenwynig neu bathogenau peryglus;
- sgaffaldiau, waliau neu rannau eraill o adeiladau'n cwympo;
- siortio trydanol mawr;
- camweithrediad generaduron ymbelydredd;
- gollyngiadau nwy;
- gollyngiadau olew neu sylweddau llygrol eraill i gyrsiau dŵr neu system garthffosiaeth;
- digwyddiadau eraill sydd wedi achosi niwed sylweddol i bobl, neu y gallent yn hawdd fod wedi gwneud.

Yn gynwysedig hefyd mae **anafiadau difrifol**:

- pob toriad, ar wahan i fodiau, bysedd a bysedd traed;
- pob trychiad;
- unrhyw anaf sy'n debygol o arwain at golli golwg parhaol neu leihau golwg;
- unrhyw anaf gwasgu i'r pen neu'r corff sy'n achosi difrod i'r ymennydd neu organau mewnol;
- llosgiadau difrifol (gan gynnwys sgaldanu) sy'n gorchuddio mwy na 10% o'r corff a/neu sy'n achosi niwed sylweddol i'r llygaid, y system resbiradol neu organau hanfodol eraill;
- unrhyw benflingo sy'n galw am driniaeth ysbyty;
- unrhyw golli ymwybyddiaeth a achosir gan anaf i'r pen neu fyctod;
- unrhyw anaf arall yn codi o weithio mewn gofod caeedig sy'n arwain at hypothermia neu salwch a achosir gan wres a/neu sy'n galw am ddadebriad neu dderbyn i ysbyty am fwy na 24 awr;
- clefydau galwedigaethau penodol fel syndrom twnnel y carpws, cramp difrifol yn y llaw neu'r elin, syndrom dirgrynnu llaw-braich ac ati

## 7.2 Arweiniad i Staff Gwasanaethau'r Campws ar adrodd ar faterion Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â myfyrwyr mewn eiddo preswyl ym mherchnogaeth PA neu a reolir gan PA

7.2.1 Gweithredu Sylfaenol: Staff Gwasanaethau'r Campws

Dylid pennu a oes unrhyw rai o'r meini prawf yn adran 7.2.2 yn gymwys i'r sefyllfa, ac os felly, dylid dilyn y weithdrefn safonol. Ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys pryder(on) neu fygythiad(au) i les myfyrwyr, dylid anfon copi o'r ffurflen Cofnodi Digwyddiad wedi'i chwblhau at y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr (yn ogystal â'r copïau a ddelir gan y Gwasanaethau Campws a'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

***Noder:*** *Disgwylir y byddai Staff Gwasanaethau'r Campws (Porthorion neu Reolwyr) fel arfer yn gweithredu neu'n cael eu galw at ddigwyddiadau o'r fath.*

7.2.2 Mae'r meini prawf perthnasol y byddent yn sbarduno'r system cofnodi digwyddiad yn y cyd-destun hwn yn cynnwys:

- tân (fflamau neu fudlosgi, sy'n gorfod cael ei ddiffodd gydag offer ymladd tân);
- canhwyllau neu ddyfeisiau eraill â fflamau noeth (e.e. lampau olew) boed ynghyn ai peidio
- amharu'n beryglus â chyfarpar diogelwch (e.e. datgelyddion mwg, diffoddwyr tân ac ati);
- clefyd hysbysadwy;
- anaf damweiniol;
- trais / ymosodiad corfforol;
- unrhyw achlysur pan gaiff cymorth cyntaf ei weinyddu (gan gynnwys achosion o hunananafu);
- cyfarpar trydanol heb awdurdod;
- atal llwybrau dianc (e.e. gyda beiciau, blychau storio, cistiau ac ati);
- pistolau awyr, reifflau awyr neu arfau (gwir neu ffug) – boed anaf wedi'i achosi ai peidio;
- mynediad heb awdurdod i ystafelloedd gwely/astudio neu fflatiau;
- prowlwyr.

7.2.3 Dylid adrodd am bob achos o actifadu larwm tân drwy'r staff Diogelwch gan ddefnyddio'r weithdrefn actifadu larwm tân sefydledig. Dim ond mewn achosion o dân gwirioneddol y bydd angen cwblhau'r ffurflen Cofnodi Digwyddiad.

7.2.4 Gan gydnabod bod Staff Gwasanaethau'r Campws yn cydweithio'n agos ac yn aml yn rheoli digwyddiad (neu sefyllfa arall) ar y cyd, dylid cael cytundeb pendant rhwng pob parti ar ddiwedd y digwyddiad ynghylch pwy sy'n cwblhau'r ffurflen/ni cofnodi.

## 7.3 Datganiad Prosesu Data Cofnodi Digwyddiad Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Crynodeb

1. Mae Prifysgol Aberystwyth yn rheolwr data dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a hefyd dan ddeddfwriaeth diogelu data pellach a ddaw i rym yn 2018.

2. Cynrychiolydd enwebedig y Brifysgol yw:
   Swyddfa'r Is-Ganghellor
   Prifysgol Aberystwyth
   Y Ganolfan Ddelweddu
   Campws Penglais
   Aberystwyth
   Ceredigion
   SY23 3BF

3. Mae angen i'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd brosesu gwybodaeth bersonol ynghylch digwyddiadau a digwyddiadau prin osgoi er mwyn gallu:
   - Cofnodi manylion pob digwyddiad a digwyddiad prin osgoi;
   - Ymchwilio i achosion yr holl ddigwyddiadau a digwyddiadau prin osgoi i'w hatal rhag digwydd eto;
   - Caniatáu i'r Brifysgol fodloni gofynion statudol y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013.

4. Mae adrodd am ddigwyddiadau yn ofyniad cyfreithiol a statudol ar bob cyflogwr, yn unol â'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013. O ganlyniad, mae sail gyfreithiol prosesu'r data hwn yn ymrwymiad cyfreithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu gwella ei system rheoli iechyd a diogelwch yn barhaus, ac felly gwrdd â'i chyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

5. Gellir diffinio'r wybodaeth a gesglir at y diben hwn yn wybodaeth sensitif neu gyfeirio at gategorïau arbennig dan y GDPR.

Manylion

6. Data personol cynrychiolwyr yw gwybodaeth a gesglir drwy gwblhau ffurflen Cofnodi Digwyddiad yn dilyn digwyddiad neu ddigwyddiad prin osgoi. Mewn achosion lle'r effeithiodd y digwyddiad ar unigolion neu y gallai fod wedi effeithio arnynt, bydd hyn yn cynnwys manylion fel enw, adran, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad ebost. Bydd ffurflenni cofnodi digwyddiad hefyd yn cynnwys manylion am natur unrhyw anafiadau a geir, a manylion cyswllt unrhyw dystion i ddigwyddiad. Caiff y data personol a gynhwysir ar y ffurflenni Cofnodi Digwyddiad ei ddefnyddio i wneud y canlynol:

- Caniatáu i'r Brifysgol adrodd am rai damweiniau difrifol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodedig, yn unol â gofynion y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013;
- Ymchwilio i achosion gwaelodol yr holl ddigwyddiadau a digwyddiadau prin osgoi i atal hyn rhag digwydd eto a chanfod ffeithiau;
- Darparu cofnod i'r Brifysgol o'r holl ddigwyddiadau a digwyddiadau prin osgoi sydd wedi deillio o'i gweithgareddau.

7. Bydd yr Adran Cyllid yn dal gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau sy'n arwain at anafiadau personol a/neu afiechyd galwedigaethol, a allai fod yn ddarostyngedig i broses cyfreitha.

8. Caiff y ffurflen Cofnodi Digwyddiad ei dal am isafswm o dair blynedd, neu tan fod y cyfnod statudol y gall unigolyn ddod â hawliad yn erbyn y Brifysgol yn dod i ben. Er enghraifft mae gan blant dair blynedd o ddyddiad eu deunawfed pen-blwydd i ddod â hawliad.

9. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn datgelu rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir i drydydd partïon. Bydd hyn yn cynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, pan fydd y digwyddiad yn arwain at ddamweiniau difrifol penodol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodedig, fel y pennir yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013.

10. Hefyd yn achlysurol gellir rhannu gwybodaeth gydag Yswirwyr y Brifysgol a/neu gynrychiolwyr cyfreithiol mewn achosion pan allai fod cyfreitha yn dilyn anaf personol neu glefydau galwedigaethol yn yr arfaeth.

Rhagor o wybodaeth

11. Fel gwrthrych data, mae gennych chi ystod o hawliau mewn perthynas â'r data mae'r Brifysgol yn ei ddal amdanoch. Ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.aber.ac.uk/en/infocompliance/policies/dp/data-subject-rights/

12. Os oes gennych ragor o ymholiadau mewn perthynas â'r uchod, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint, Dr Jonathan Davies: infocompliance@aber.ac.uk.